Yr Adfent

Darllen: Ioan 14:27

Mae tymor yr Adfent a'i amrywiol themâu yn rhoi cyfle i ni ymgodymu â gwerthoedd dyfnaf a dyrys bywyd – goleuni a thywyllwch, barn a chyfiawnhad, disgwyliad, gobaith a chyflawniad. Mae'n gyfle i ni geisio datrys y cwestiwn oesol, 'Pam ydyn ni yma?' Mae'n gyfle i chwilio am y Duw sy'n ein caru ac yn chwilio amdanom. Cofiwn ein bod mewn cwmni da, gan fod myrddiynau ar hyd yr oesoedd wedi ceisio mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn.

Yn nhymor yr Adfent mae'r tywydd yn dirywio - mae'n oeri, mae stormydd yn codi, mae'r nosweithiau'n hir a thywyllwch o'n cwmpas ym mhob man. Mae hi'n dywydd i godi'r felan ar unrhyw un. Yng nghanol cysgodion fel hyn, cawn ein gorfodi i ddisgwyl wrth Dduw ac i ystyried a meddwl am ei ddyfodiad i'r byd. Mae angen i ni wybod y bydd Duw yn 'barnu rhwng cenhedloedd, a thorri'r ddadl i bobloedd lawer' (Eseia 2:4). Efallai y bydd rhaid i ni gael ein hargyhoeddi ar y pwynt, gan ein bod o'r farn fod y drwg yn ffynnu a llwyddo yn aml. Wrth i ni ddyheu am heddwch a chytgord mewn bywyd, mae'r proffwyd Eseia yn ein hannog, 'Tŷ Jacob, dewch, rhodiwn yng ngoleuni'r Arglwydd' (2:5). Ychydig adnodau cyn hyn gofynnwyd i'r bobl fynd i fynydd yr Arglwydd, i deml Duw Jacob a hynny er mwyn 'dysgu i ni ei ffyrdd' (2:3). Golyga hyn fod yna ddrws ymwared bob amser, rhywbeth y gallwn ni weithredu arno. Efallai fod y sefyllfa'n argyfyngus ac yn edrych yn dywyll - gallai olygu rhyfel, ymrafael rhwng pobl rydyn ni'n eu caru, neu hyd yn oed densiynau yn ein bywydau personol. Ond dywed y Beibl y bydd Duw yn barnu ac yn creu heddwch a thangnefedd. Ac fe allwn ni chwarae ein rhan: 'curant eu cleddyfau'n geibiau, a'u gwaywffyn yn grymanau', sy'n golygu y bydd yr adnoddau oedd unwaith yn arfau yn dod yn eu tro yn adnoddau fydd yn cael eu defnyddio i'n maethu ac i feithrin gobeithion. Bydd yr holl egni a ddefnyddiwn i ymladd yn cael ei ail gyfeirio at adeiladu, datblygu a meithrin cyfanrwydd. Gallwn, bob un ohonom, er cyn lleied yw, gerdded

cam bychan yng ngoleuni Duw, trwy ymddiried ynddo mewn gweddi, addoliad a gweithred. Yng nghanol mwrllwch a thywyllwch cyfnod yr Adfent mae goleuni'n treiddio i ddyfnderoedd ein bywydau. Dyma'r tangnefedd yr oedd Iesu'n cyfeirio ato yn ystod ei weinidogaeth. Meddai wrth ei ddisgyblion ar drothwy ei ymadawiad ac artaith y Groes, 'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun. Nid fel y mae'r byd yn rhoi yr wyf fi'n rhoi i chwi' (Ioan 14:27). Mae llawer mwy nag optimistiaeth arwynebol ynghlwm wrth y geiriau hyn y bydd pethau'n disgyn i'w lle yn y man: mae yna obaith cadarn a di-syfl sut y bydd y byd dan deyrnasiad Duw.

Gwelwyd y trobwynt hwn yn nhaith y seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem i holi am yr hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon. Ar ôl darganfod y mab bychan gyda'i rieni, nid dychwelyd at Herod Fawr wnaethant ond yn hytrach dychwelyd i'w gwlad eu hunain ar hyd ffordd arall. Cawsant bersbectif newydd ar yr hyn oedd yn bwysig. Buont feirw i'w hen syniadau, a ganed gobaith newydd yn eu bywydau. Dyma sy'n ein cymell i fynd ar hyd ffordd arall.

Myfyrdod pellach:

Dychmygwch y gwahaniaeth fyddai petai mwy ohonom yn meddwl yn bositif.

Oes yna rywbeth sy'n eich poeni heddiw y gallwch ei gyflwyno i Dduw yn y gobaith y bydd ef yn barnu'n deg?